

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Gell Cyngor Technegol

# Crynodeb o'r cyngor

9 Hydref 2020







OGL (h) Hawlfraint y Goron 2020

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

9 Hydref 2020

## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae amcangyfrif y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) o'r rhif atgynhyrchu ($R_t$) wedi gostwng ers yr wythnos ddiwethaf, ond mae'r achosion o COVID-19 yng Nghymru yn cynyddu'n gyflymach ac yn gyflymach o hyd gan fod Rt yn dal yn fwy nag un. Ceir twf cyflymach a chyflymach mewn epidemig pan fydd niferoedd mawr o heintiadau yn cronni dros gyfnod byr o amser o ganlyniad i haint eang.

- Gall nifer y derbyniadau i'r ysbyty gynyddu ledled Cymru o ganlyniad i hyn oni bai bod mesurau rheoli pellach yn cael eu rhoi ar waith.

- Mae potensial i achosi niwed drwy ymyrryd a thrwy peidio ag ymyrryd. Er enghraifft, bydd peidio ag ymyrryd yn achosi niwed uniongyrchol sy'n deillio o heintiadau a niwed i'r GIG a gwasanaethau eraill. Gall ymyrryd achosi niwed anuniongyrchol hirdymor a thymor byr (ee niwed economaidd, niwed seicolegol, gydag effeithiau arbennig o ddifrifol ar bobl iau).

- Mae mesurau'n fwy tebygol o weithio os yw'r cyhoedd yn cael eu cynnwys, yn deall ac os ceir neges glir gyda chamau gweithredu a nodau cyraeddadwy.

## Y sefyllfa bresennol yng Nghymru

- Am y tro cyntaf yn ystod y don hon o heintiadau, mae'r digwyddedd ar gyfer Cymru yn uwch na 100 o achosion fesul 100,000 o bobl ac mae cyfanswm positifedd profion Cymru yn 7.8%. Mae pob awdurdod lleol wedi gweld mwy na 25 o achosion fesul 100k dros yr wythnos ddiwethaf ac mae'r positifedd profion yn fwy na 2.5%.

- Rydym yn parhau i fonitro sut y gallai'r trywydd tuag at i fyny o ran yr achosion, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau esblygu yn ystod yr wythnosau nesaf. Pe bai'r twf cyflymach a chyflymach yn parhau am fwy na chwe wythnos gallai hyn arwain at senarios sy'n rhagori ar ein senario waethaf sy'n rhesymol ei thybied a'n senarios ar gyfer cynllunio.

- Mae nifer yr achosion o COVID-19 wedi cynyddu ar draws pob grŵp oedran, ac mae ar ei uchaf ymhlith y rhai o dan 50 oed. Fodd bynnag, gwelir cyfran gynyddol o achosion bellach mewn grwpiau oedran hŷn.

## Camau gweithredu posibl i leihau effaith y feirws

- Mae camau gweithredu yn ymyriadau anfferyllol, ar wahân i gael y brechlyn a chymryd meddyginiaeth, y gall pobl a chymunedau eu cymryd i helpu i arafu lledaeniad afiechydon fel COVID-19.

- Mae SAGE wedi cyhoeddi tystiolaeth o effaith ymyriadau anfferyllol ar y niwed a achosir gan COVID-19, y niwed anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r ymyriadau ac ystyriaethau o ran gweithredu. Mae'r papurau hyn ar gael yma (cyfarfod SAGE 58): https://www.gov.uk/government/collections/sage-meetings-september-2020#meeting-58,-17-september-2020

- Mewn rhai ardaloedd ledled Cymru, mae ymdrech ar y cyd gan y boblogaeth ac asiantaethau lleol i fabwysiadu ymyriadau anfferyllol wedi helpu i leihau lledaeniad y clefyd yn llwyddiannus. Er bod hyn yn galonogol, efallai na fydd y pecyn presennol o gyfyngiadau ar gyfer ardaloedd lleol yng Nghymru yn ddull cynaliadwy ac mae angen parhau i ystyried opsiynau eraill ymhellach.

- Mae papurau SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol a'r Grŵp Cynghori Technegol wedi cael eu cyhoeddi yma: https://www.gov.uk/government/collections/scientificevidence-supporting-the-government-response-to-coronavirus-covid19#meeting-minutes-and-supporting-papers

**Cyfradd twf a rhif atgynhyrchu**

- Amcangyfrifa SAGE fod y gyfradd twf ddyddiol bresennol rhwng 0.02 a 0.07 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn cynyddu rhwng 2% a 7% y dydd.

- Rhagfynegir bod yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu ($R_t$) ar gyfer Cymru gan SAGE rhwng 1.0 a 1.4. Dangosir yr amcangyfrif o $R_t$ fel ystod heb amcangyfrif canolog.

- Mae'r tabl isod yn dangos y gyfradd twf a'r $R_t$ a amcangyfrifwyd gan SAGE (7 Hydref 2020) ar draws 4 gwlad y DU.

| **Gwlad** | **Cyfradd twf bob dydd** | **$R_t$** |
|---|---|---|
| Cymru | +2% i +7% | 1.0 – 1.4 |
| Lloegr | +4% i +8% | 1.2 – 1.5 |
| Yr Alban | +6% i +9% | 1.3 – 1.6 |
| Gogledd Iwerddon | +3% i 7% | 1.2 – 1.5 |
| Y DU | +4% i +9% | 1.2 – 1.5 |

- Mae ansicrwydd yn parhau ynghylch union werth amcangyfrifon fel R, ond mae consensws bod y rhif R yn sylweddol uwch nag 1 a bod yr epidemig yn tyfu'n gyflymach a chyflymach.

- Mae nifer yr achosion positif wedi cynyddu yng Nghymru dros y chwe wythnos ddiwethaf ac rydym yn dechrau gweld cynnydd yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn ogystal â marwolaethau.

- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli'r amcangyfrifon o $R_t$ a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd nad ydynt, o ran eu natur gynhenid, yn gwbl gyfredol, ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiadau yn nifer yr heintiadau a'r ffaith bod cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad. Gall argaeledd profion hefyd gyfyngu ar yr amcangyfrifon.


**Amser dyblu**

- Mae SAGE yn amcangyfrif bod yr amseroedd dyblu ar gyfer heintiadau newydd ledled y DU rhwng 8 ac 16 diwrnod. Mae anawsterau'n parhau o ran dehongli data profion ac felly mae amcangyfrifon o amseroedd dyblu yn dal i fod yn ansicr. Mae gwahaniaethau sylweddol ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol ac mae'n bosibl y gallai'r amseroedd dyblu fod yn gyflymach mewn rhai ardaloedd.

**Proffil oedran yr achosion**

- Fel yr adroddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae nifer yr achosion wedi cynyddu ar draws pob grŵp oedran, ac mae ar ei uchaf ymhlith pobl o dan 50 oed.

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y gyfran gynyddol o achosion (a ddangosir mewn coch tywyllach) a welir bellach mewn grwpiau oedran hŷn. Mae hyn yn awgrymu bod achosion mewn pobl ifanc bellach yn dechrau symud i grwpiau oedran hŷn, sy'n fwy tebygol o gael canlyniadau gwaeth o COVID-19 oherwydd mwy o gyd-forbidrwydd.




## Derbyniadau i'r ysbyty a phobl mewn unedau gofal dwys

- Mae'r tabl isod yn dangos faint o welyau sy'n cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys ledled Cymru a faint o gleifion y cafwyd cadarnhad bod ganddynt COVID-19 a faint o gleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19 sydd mewn unedau gofal dwys ar hyn o bryd. Tynnwyd yr wybodaeth o ddangosfwrdd Armakuni (Llywodraeth Cymru).


- Yn gyffredinol, mae'r Ffigurau isod yn dangos bod nifer y cleifion a dderbynnir i'r ysbyty oherwydd COVID-19 (y cafwyd cadarnhawyd neu yr amheuir bod ganddynt COVID-19) wedi cynyddu dros yr wythnos ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r nifer a dderbynnir i unedau gofal dwys yn parhau'n sefydlog.

| Bwrdd Iechyd | % Defnydd gwelyau unedau gofal dwys Lefel 3 | Cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID | Cleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 62.5% | 2 | 4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 64.5% | 0 | 4 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 61.5% | 0 | 9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 53.1% | 2 | 3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 56.3% | 0 | 1 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 65.5% | 0 | 2 |
| **Cymru** | **59.5%** | **4** | **23** |


- Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif am COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru.





- Mae'r ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbynnir i'r ysbyty yr amheuir bod ganddynt neu y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd goleuach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




- Mae'r ffigur isod yn dangos nifer y bobl yr amheuir neu y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 a ryddhawyd o'r ysbyty. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd goleuach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




- Mae'r ffigur isod yn dangos cleifion a dderbyniwyd i unedau gofal dwys yr amheuir neu y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd goleuach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.





**Marwolaethau**

- Mae nifer y marwolaethau bob wythnos a gofnodwyd drwy drefniadau cadw golwg cyflym ar farwolaethau wedi cynyddu yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, er ei bod yn dal yn isel ac yn is na'r brig a welwyd yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 12 Ebrill (236).

- Yn ôl data tystysgrifau marwolaeth dros dro a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cofrestrwyd 12 o farwolaethau yn sgil COVID-19 ymhlith trigolion Cymru gyda chyfeiriad at COVID-19 ar y dystysgrif farwolaeth yn ystod wythnos 39 (a ddaeth i ben ar 25 Medi). Mae hyn wedi gostwng o'r brig o 412

yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Ebrill, ond mae wedi cynyddu ers yr wythnos flaenorol.


- Mae'r ffigur isod yn dangos nifer y marwolaethau bob wythnos a gofrestrwyd yn ôl lle y digwyddodd yng Nghymru ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 13 Mawrth 2020 (Wythnos 11) hyd at yr wythnos a ddaeth i ben ar 25 Medi 2020 (Wythnos 39). Ffynhonnell: Dangosfwrdd cyhoeddus Iechyd Cyhoeddus Cymru.




## Diweddariad rhyngwladol


- Fel gyda'r wythnos diwethaf, mae'r DU y tu ôl i Ffrainc a Sbaen ond yn dilyn trywydd tebyg.

- Mae'r ffigur isod yn dangos sut y mae achosion o COVID-19 14 diwrnod fesul 100,000 wedi newid ledled Ewrop o wythnos 36 – 38. Mae data ar y darlun ar draws Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch achosion o oedi o ran y data a pholisïau profi amrywiol, ar gael yma: [https://www.ecdc.europa.eu/en/covid-19-pandemic](https://www.ecdc.europa.eu/en/covid-19-pandemic)



**Glynu at y mesurau presennol a symudedd**

- Mae data diweddaraf IPSOS MORI ar gyfer Cymru yn dangos cynnydd yn nifer o'r cwestiynau sy'n ymwneud â glynu wrth ymddygiadau lliniaru allweddol. Cynyddodd y ganran a ddywedodd eu bod wedi defnyddio gorchudd wyneb ymhellach i 82%, a chynyddodd y rhai a ddywedodd eu bod wedi gwneud teithiau hanfodol yn unig o 38% i 51% - yr uchaf y bu ers dechrau mis Gorffennaf. Dylid nodi mai’r unigolion eu hunain sy’n cofnodi lefel eu hymlyniad a bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt yn effeithio ar hyn.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg mewn sawl gwlad ar blatfform Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys tua 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed yn fras. Mae’r data’n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.





- Mae data symudedd ar gyfer Cymru a'r DU yn dangos gostyngiadau pellach o gymharu â'r wythnos ddiwethaf, gyda gostyngiadau llawer mwy yng Nghymru. Ar ôl cynnydd dros fisoedd yr haf, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn dangos ei bod yn ôl i'r lefelau a welwyd ganol mis Gorffennaf.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd ymhlith defnyddwyr Facebook yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen, mae hyn 17% yn is na'r llinell sylfaen

(9% yn is yr wythnos diwethaf). Dyma'r isaf ers canol mis Gorffennaf. Mae 27% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros lle maen nhw, i fyny o 25% yr wythnos ddiwethaf a'r uchaf ers canol mis Gorffennaf. Ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros lle'r oeddynt – roedd hyn tua 18% ddechrau mis Mawrth.

- Mae data Apple sy'n dangos ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi gostwng eto yn ystod yr wythnos ddiwethaf ac maent bellach yn debyg i ddechrau mis Gorffennaf. Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus ill dau wedi gostwng eto yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn debyg i ddiwedd mis Gorffennaf.
- Mae data symudedd Google yn dangos gostyngiadau bach mewn gweithleoedd a chynnydd mewn preswyl yn ystod yr wythnos ddiwethaf (hy pobl yn treulio mwy o amser gartref na'r wythnos ddiwethaf). Mae categorïau eraill i gyd yn dangos gostyngiadau hefyd.
- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud llym roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin gwelwyd mwy o gynnydd mewn symudedd yn Lloegr nag yng Nghymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a pharhaodd hynny drwy gydol mis Awst. Yn dilyn gostyngiadau bach yn gynnar i ganol mis Medi, mae gostyngiadau mawr wedi bod mewn symudedd yng Nghymru.
- Mae data ffonau symudol dienw a chyfanredol gan O2 hyd at 2 Hydref wedi dangos, ar ôl cyflwyno cyfyngiadau lleol, fod gostyngiadau nodedig wedi bod mewn teithiau ym mhob ardal y diwrnod ar ôl i'r cyfnod o gyfyngiadau ddechrau (sydd wedi digwydd am 6pm). Mae ardaloedd Caerffili a Blaenau Gwent yn dangos bod nifer y teithiau wedi cynyddu ar ôl i'r cyfyngiadau lleol ddechrau a dim ond ychydig yn is ydynt na'r lefelau yn y cyfnod cyn y cyfyngiadau, neu maent yn debyg iawn iddynt. Mae awdurdodau lleol eraill sydd wedi bod o dan gyfyngiadau lleol[1] sy'n cael eu cynnwys yn y data yn dangos bod teithiau yn parhau'n is na'r lefelau cyn y cyfyngiadau. Yn gyffredinol yng Nghymru, roedd lefelau teithiau wedi gostwng 9 pwynt canran dros yr wythnos - mwy na'r gostyngiad o 2 bwynt canran ledled y DU.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr-6 Chwefror 2020,

[1] Mae'r data hyd at 2 Hydref, felly maent yn ymwneud â'r cyfyngiadau lleol yng Nghaerffili (o 6pm, 8 Medi), Rhondda Cynon Taf (o 6pm, 17 Medi), Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd (o 6pm, 22 Medi), Caerdydd ac Abertawe (o 6pm, 27 Medi), Castell-nedd Port Talbot, Torfaen a Bro Morgannwg (o 6pm, 28 Medi), Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam (o 6pm, 1 Hydref). Gan fod y data'n cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol yn gyfan, nid yw cyfnod y cyfyngiadau lleol yn Llanelli (o 6pm, 26 Medi) wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad hwn.

yw'r llinell sylfaen. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.




## Canlyniadau Arolwg Heintiadau COVID-19 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

- Mae'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn dangos bod gan tua 0.20% o'r boblogaeth yn y gymuned COVID-19 yn yr wythnos 25 Medi – 01 Hydref. Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 500, neu gyfanswm o 6,100 o bobl yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon a darperir cyfyngau credadwy i ddangos o fewn pa ystod y gallwn fod yn hyderus y ceir y ffigur gwirioneddol.
- Awgryma data fod y gyfradd bositifedd wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf, ond efallai ei bod wedi sefydlogi ers hynny. Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Gan fod nifer y profion positif y mae'r arolwg yn eu nodi yn cymharol fach o hyd, mae'r canlyniadau'n sensitif iawn i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.

## Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 5762 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19.

**Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ar 8 Hydref, 2020:

- Mae cyfran y galwadau i 111 y GIG a Galw Iechyd Cymru sy'n ymwneud â symptomau COVID-19 posibl wedi sefydlogi ar ôl cynnydd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

- Bu gostyngiad yn nifer yr ymgyngoriadau gan feddygon teulu ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt ac achosion lle yr amheuwyd bod gan glaf COVID-19 yn ystod wythnos 40 o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sy'n ymwneud o bosibl â COVID-19 yn sefydlog.

- Yn ystod wythnos 40, cynyddodd digwyddedd ar draws pob grŵp oedran, roedd ar ei uchaf ymhlith pobl o dan 50 oed.

- Mae achosion diweddar wedi cynnwys trosglwyddiadau yn y gweithle ac ymhlith rhwydweithiau cymdeithasol.

- Mae achosion a gadarnhawyd mewn cleifion sy'n cael eu profi wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty a chleifion mewn unedau gofal dwys wedi gostwng yn wythnos 40 o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Bu tueddiad cynyddol o weld cleifion mewnol yn cael canlyniad positif i'r prawf, yn enwedig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

- Mewn ardaloedd awdurdodau lleol yn y De y gwelwyd y gweithgarwch mwyaf, ond mae tueddiadau'n cynyddu mewn sawl rhan arall o Gymru.

- Mae dosbarthiad yr achosion yn awgrymu bod yr achosion a gadarnhawyd yn ymledu yn ddaearyddol, ac mae canolrif ac ystod y niferoedd achosion hefyd yn cynyddu fesul ardal.

- Adroddir am nifer cynyddol o ddigwyddiadau, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl, a chynnydd diweddar mewn ysgolion, gydag achosion ymhlith staff neu fyfyrwyr yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

- Gwelir y gweithgarwch uchaf ym Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr gyda safleoedd profi cymunedol symudol wedi'u sefydlu'n ddiweddar ac, fel yr oedd y sefyllfa ar 8 Hydref, mae cyfyngiadau lleol ar waith ar hyn o bryd mewn 15 o ardaloedd awdurdod lleol ac un dref (Llanelli).

**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw’n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws y gwahanol gyngor a roddir.

